YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LII. HYDREF 1952 RHIF 10.

Nodiadau'r Golygydd

DEWI EMRYS

" Fry ar y mwni mae nghatre bach
Gida'r goferydd a'r awel iach."

FELLY canodd bardd Pwll Deri a heno y mae yn ei gartref bach ar fynydd Pisgah. Fe grwydrodd Dewi Emrys ymhell o Bwll Deri lawer gwaith, ond deuai yn ôl i'w awyrgylch bob hyn a hyn, a dyma'r pryd yr oedd ar ei orau.

Fel un o blant ieuenga'r Babell Awen cefais y fraint o agor drws i'r bardd yn y pentre bach ar lannau.r Clettwr lle treuliodd flynyddoedd olaf ei oes. Lodgings o afael y bomiau yn Llundain i ddechrau, lloches i ifaciwi. Nid oedd drafferth iaith i'r ifaciwi hwn, yn wir, y brodorion a deimlai'n swil wrth wrando ar ei ymadrodd perffaith a'i ramadeg cywir. Glanyrafon gynta, Gwynfe am dro hir ac o'r diwedd rhoddwyd iddo aelwyd glyd y Bwthyn.

Nid oedd pawb yn cefnogi. Os oeddych ym mysg y rheiny peidiwch a dod at lan ei fedd i hidlo eich dagrau crocodeil. Os y dowch, fe fydd y dagrau dyfrllyd yma yn codi llif eich Iorddonen rywbryd. Diolch i'r rhai a roes nodded a charedigrwydd iddo gan anghofio troeon orïog gŵr o athrylith.

Nid wyf yn godwr bore fy hun ; ni'm ganwyd ymhlith gwŷr y bore cyntaf. Nid oedd Dewi yn godwr prynhawnol hyd yn oed. Rhyw araf ddadmer y byddai ef ar ôl pump o'r gloch. Proses ryfedd oedd ei ddeffro cyn hynny. Yn wir yr oedd cyn wirioned i gnocio ar ei ddrws ac y byddai i gnocio ar garreg fedd i frysio'r atgyfodiad. 'Rwy'n credu fod dynion wedi eu torri ar gyfer gwisgo math arbennig o ddillad. Cam a theilwriaeth yw ceisio torri dillad i ffitio'r dyn. Dyn pyjamas oedd Dewi a cham mawr Cymru ei gyfnod ag ef oedd ceisio llunio siwt bin-streip i'w rhoi'n dwt

amdano. Pa sawl bore y codais yn y tŷ dros y ffordd i'r Bwthyn a gweld llenni'n cysgu'n drwm ar ei ffenestr ef. Pip fach ganol dydd wedyn a'r llenni yn yr unlle. Amser te—dim cyffrad ! Ond gyda'r hwyr fe godai'r llen ac i mewn ym mherfeddion y gwyll fe welech gannwyll yn crwydro'n farddonol o ddi-bwrpas o un man i'r llall.

Y Bardd yn ei Weithdy.

Gweled y gannwyll a wneuthum un noson o Fai, 1943 a minnau'n dod adref o'r Cei yn bur hwyr. Euthum at y drws. Aros ennyd. Yr oedd rhywun yno eisoes a berw siarad yn llanw'r Bwthyn. Gwell i mi beidio torri ar y cwmni. Eto, gallai fod yn gwmni difyr, ac i mewn a mi.

"*A'r mowcedd, tina gimisgeth o swn !*" *a chimisgeth* o bapurau, a Dewi, dim ond Dewi, a'i lygaid yng nghau ar ganol y llawr yn adrodd rhaffeide o awdl Cymylau Amser a enillodd gadair Bangor iddo. Darllenais lawer yn llyfrau'r coleg am ecstasi'r proffwydi gynt, a'r noson honno gwelais ecstasi bardd. Eisteddais yn wylaidd. Llinellau i ddechrau, cypledau ; munudau o ddistawrwydd ac yna ffrwd ddi-symwth o hir a thoddeidiau yn rhaeadru arnaf. Pwl o weddi ac wylo a'r gwallt trwchus llaes yn chwythu dros y lle yn y storm.

" Ym merw byd y mae awr bêr—i wyliwr,
Awr chwalu trais amser,
Awr y swyn pan losgo'r sêr,
Edefyn y cnawd ofer."

Gwelais y llosgi, gwelais y llesgedd. Yr ymwacau. Llifodd y profiadau a dadlwythwyd chwedl ei oes, ond cyfrinach yw hynny. Clywsom dic y cloc unwaith eto tuag oriau bras y bore,

" Tawodd, a gwelwn uwch crib a dibyn
Gryfder yr hyder a fedd credadun."

Darfu'r llesmair a throes ataf gan ofyn "Be sy genti fanna ? " Yr oedd parsel bach wedi bod yn fy llaw ar hyd yr amser a minnau wedi anghofio amdano. Pedwar macrel oedd ynddo. Ar amrant, medde fi—"mae gen i frecwast i ni'n dau." . . . Welsoch chi fardd yn trin ffreipan erioed ? Ta waeth, gallwn ddweud gyda Gutun Owain y bore hwnnw, "Oedd unty fwy o ddeintedd."

Ar lan yr Afon.

A siarad am bysgod. Dro arall yr oeddym ein dau ar daith liw nos a'n bryd ar godi gleisiaid o bwll Dolfor yn afon Teifi. Rhwng unarddeg y nos a dau y bore y mae'r hwyl orau ar yr afon, fel y

gŵyr y cyfarwydd. (Hynyna, gyda llaw, rhag ofn i mi gael gwys i lys barn am botsian !) Yr oedd hwyl fawr y noswaith honno ac un o bysgotwyr gorau Cymru yn barod i ddangos cyfrinachau'r grefft i ddisgybl ysbâs. "Paid chwipio gormod," meddai, "fe fûm i'n dysgu Gwenallt i bysgota unwaith, ond wrth iddo chwipio dros y lle fe gydiodd bach y bluen yn ei glust." Maddeued Gwenallt i mi, ond ni allwn lai na chwerthin yn afreolus wrth feddwl amdano yn dal *pysgodyn mawr* ! Cyn hir cawsom ninnau bysgod braf i'r lan a phenderfynwyd ei bod yn amser cael hoe a thocyn ar hen foncyff gerllaw. Lleuad wanllyd tu ôl i'r coed a'r cymylau. Popeth yn ddistaw ond ffrydiau'r dŵr yn treiglo a swnio'n uchel a dwfn am yn ail. "Glyw di nhw ? " meddai, "ma' nhw wrthi yn siarad a chynllwyno heno eto ! Mae dynionach bach yr afon wedi cynhyrfu am ein bod ni yn torri ar eu gŵyl." A chyda gwefusau ystwyth a geiriau ellyllaidd dyma fe'n dynwared parabl y ffrydiau hyd oni welwn y dynionach yn dawnsio a gwallt fy mhen yn codi mewn arswyd. Yr oedd yn actor gwych. Ysgwn i ai'r noson honno y cyfansoddodd y gerdd i'r Afon sy'n cynnwys y pennill hwn,

Cyfrin eglwysiaith ar dalaith dolau
Ail sibrwd isel asbri duwiesau,
Neu barabl mymphod, direidus fodau
A'u hafiaith anwel yn nhwrf ei thonnau.

Ei Bulpud.

Tua'r amser hwn hefyd bûm yn pregethu yn ei hen bulpud ym Mwcle, Sir y Fflint. Ewch yno rywbryd a gofynnwch iddynt pa fath bregethwr oedd Dewi yn ei ieuenctid. Gofynnwch i Dennis Griffiths pwy ai dysgodd i garu drama a cherddoriaeth a phwy a roes sail i lawer o ddiwylliant y lle. Yno, dangoswyd i mi olion ffôn hen ffasiwn a'i wifrau gynt yn arwain o areithfa'r capel hyd at waelodion eithaf y pwll glo. Yr oedd meistr y gwaith yn credu y dylasai'r gweithwyr gael cyfle i glywed y pregethwr athrylithgar hyd yn oed yng nghaethiwed y talcen glo. Rhoisai hwylustod y ffôn at eu gwasanaeth a chaniatâd i gymryd egwyl i wrando. Y mae Bwcle yn dal i'w gofio a'i barchu o hyd.

Ie, fe fydd yn dawel yn Nhalgarreg heno a bydd ' bois y nos ' yn cerdded yn ddistaw heibio i'r Bwthyn am unwaith. A phan af innau i aros yn y tŷ dros y ffordd y tro nesaf, gallaf godi pryd y mynnwyf ac ni welaf mwy y crwydro mawr. Mae'r gannwyll wedi diffodd. Cofiwn yn dyner amdano a nodded Duw fo i Dwynwen.

Er rhoddi bardd dan briddyn—heb aur byd
Bu aur byw i'w linyn ;
A thrwy ei glod aeth i'r glyn
Yn gyfoethog o'i fwthyn.

Evan James Williams

1903—1945.

Gan y Parch. J. Seymour Rees.

Dewch gyda mi am dro drwy bentref diarffordd, Cwmsychbant yng Ngheredigion. Ar un ochr i'r heol ceir Capel a mynwent. Gyferbyn, saif tŷ diaddurn yn gartref i werinwr diwylliedig. Ar Fehefin 4, 1903, breintiwyd yr aelwyd â baban, yn drydydd mab i'r teulu. Drwy ffenestr yr ystafell y ganed ef ynddi gellir gweled y fan sydd heddiw yn dir yr ' hir gartref i'w weddillion brau ' oddiar Hydref 1945.

Er mai agos iawn yw lle'r crud i dywarchen ei fedd, dringodd Evan James Williams dros bellter uchel yn ystod ei dymor byr o ddwy flynedd a deugain.

Dechreuodd ef ar ris isaf ei addysg elfennol ym mhentref Llanwenog, nepell, i gyrraedd Ysgol Ramadegol Llandysul. Yno, yn dra buan, disgynnodd hudlath ei brifathro drosto i'w ddenu at feysydd Ffysics a Mathamateg.

Un noson ar ôl iddo sicrhau'r ffon uchaf yno, yn 1919, gwelodd mewn papur lleol bod arholiad i'w gynnal trannoeth dan nawdd Coleg Technegol Abertawe. Ar amrant, penderfynodd anturio i'r ornest. Cododd un rhwystr cyndyn ar ei ffordd. Gan fod y trên diwethaf am y dydd hwnnw wedi ymadael ers oriau, dyfalodd am fodd cyfleus i wynebu'r praw mewn pryd.

Ben bore, ymadawodd ef â'i gartref ar sgil motor beic ei frawd gan chwyrnellu am hanner can milltir. Deuwyd i'r ystafell yn ddiogel, ac eistedd yn hamddenol i ymadael yng nghwmni ei ysgoloriaeth o bum punt a hanner cant.

Ychydig mewn rhif yw nifer y blynyddoedd rhwng 1919 a 1938. O'r un gyntaf hyd yr olaf bu'r myfyriwr yn gwau rhamant o drothwy Athrofa Abertawe i ddyrchafu at Gadair Athro yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth. Ar ei yrfa daeth i'w ran i godi llawryfau'n chwim ym myd Ffysics.

Cefnodd Williams ar Abertawe yn 1924 gan feddu ei M.Sc., a chyrraedd Manceinion yn Gymrawd o Brifysgol Cymru. Yno, cydlafuriodd â'r Athro W. L. Bragg i barhau ei waith ymchwil, a sicrhau ei Ph.D., yn 1927.

Wedyn, newidiodd ei faes i efrydu dan Syr Ernest Rutherford. Yn 1929, estynnwyd Ph.D. Caergrawnt iddo. Erbyn 1930, enillodd ei D.Sc., ym Mhrifysgol Cymru.

Treuliodd ei gyfnod nesaf hyd 1937 fel darlithydd cynorthwyol ym Manceinion, gan dreulio'r flwyddyn 1933 yng Nghopenhagen, Denmarc. Yma, cafodd y fraint o efrydu dan arbenigwr, yr Athro Niels Bohr i ddatblygu ei dalent naturiol i dwf amlwg.

Tyfodd cyfeillgarwch rhwng y ddau yn edmygedd, a sylweddolodd ei gyfarwyddwr bod grym neilltuol yng ngallu dadansoddol Williams.

Yn 1937, dewiswyd ef yn brif ddarlithydd i'r Athro Chadwick yn Lerpwl cyn symud i lanw Cadair Ffysics yng Ngholeg Aberystwyth yn 1938.

Hawdd yw casglu oddiwrth y braslun hwn i Evan James Williams frasgamu'n dra chyflym ac mewn modd anhygoel nes ymrestru ymysg blaenwyr ei oes mewn cangen o Wyddoniaeth.

Tystia cyfaill i'n gwrthrych fynegi pan yn un ar bymtheg oed y gobeithiai ddal Ysgoloriaeth 1851, meddu ei D.Sc., a dringo i'w gydnabod yn Gymrawd o Brifysgol Cymru, yn ogystal a'r Gymdeithas Frenhinol, cyn bod yn bymtheg ar hugain oed. Nid dymuniad gwag a fu hyn oll, ond uchelgais a wireddwyd ar bwys teilyngdod ei lafur di-ildio.

Ar ganol gwaith pwysig iawn yn Aberystwyth rhwystrwyd Williams i barhau gan alwad i Farnborough. Yno, yn gynnar yn 1940, bu yn un o gwmni i orchfygu trychineb yr U-gwch a ddarniai bob diogelwch ar y môr. Telir gwrogaeth uchel i'w waith yn gyfran bwysig i atal colledion, ym Mehefin 1943.

Bu'r llwyddiant hwn yn foddion i'w gadw ymhellach yng ngwasanaeth y Llywodraeth. O'i un flynedd ar hugain mewn gwaith ymchwil treuliodd ef bump ohonynt i gynllunio ynglŷn â dulliau rhyfel.

Yn Ionawr 1944, aeth Williams i Fôr Canoldir i wylio a dyfeisio ffyrdd i atal difrod y cychod dan don rhag ymosodiadau o'r awyr. Bu'r ychydig wythnosau hynny yn gyfrwng i leihau'r dinistr. Yn Chwefror 1944, wedi dychwelyd i'r wlad hon bu dan driniaeth feddygol. Weithian, daeth i wybod ei fod yng ngafael cancr. Ar gyfrif ei gorff cryf, ar fyr dro, ail-ymaflodd yn ei waith yn egniol i gwrdd â darpariadau newydd gan yr U-gwch.

Bu Williams dan gyllell y meddyg am yr ail dro yn Ionawr 1945. Adferwyd ef i raddau, a mynnodd eto droi at wasanaeth y Morlys. Ymadawodd am Washington yn America i drafod pynciau yn perthyn i'r rhyfel yn y Dwyrain pell. Ar y pryd hwn hefyd estynnodd gyfraniad i gylchgrawn a gyhoeddwyd ar ddathliad trigain penblwydd yr Athro Niels Bohr. Dengys yr erthygl hon ef ar binacl ei allu wrth gyflwyno cynnyrch gwreiddiol o safon uchel.

Erbyn mis Ebrill teimlai Williams ei fod yn nesu at derfyn ei daith. O'r herwydd, ymbiliodd yn daer ar y meddyg i ymdrechu estyn ei ddyddiau gwaith. Mynegai bod ganddo ei gynlluniau yn galw am nerth i'w gorffen. Yn wyneb pob dyfalwch chwalwyd ei egni dan ergydion y poenau. Daeth angau i ganol gofal tyner ei rieni ar Fedi 29, 1945 i'w gyrchu, a chladdu gobeithion am ychwaneg o'i gymwynasau.

Wedi talu prin degwm o deyrnged i athrylith E. J. Williams, gadewch i ni bellach fwrw golwg ar ei bryd a'i wedd a'i nodweddion.

Corff bychan, cydnerth a feddai. Yr oedd swyn yn ei hirwallt tywyll, y llygaid glas, yr aeliau trwchus, y trwyn lluniaidd, y wefus ddel, y wên lydan a'r ên gadarn.

Nid gŵr sychsyber ydoedd. Ymhoffai mewn chwaraeon, trefnai driciau diniwed, ac adroddai straeon digrif, wrth ei fodd. Yn rhyfedd iawn, blinid ef gan ofergoelion bro ei febyd. Ar ei grogi, ni fedrai yrru ei gar yn y nos heibio i dŷ y bu trychineb ynddo. Na, llethid ei reswm gan ddychymyg.

Perthynai iddo bersonoliaeth gymhleth sydd yn anodd i'w ddisgrifio. Parod oedd ei hynawsedd i bawb yn ddiwarafun. Ar adegau, medrai fod yn dawedog hyd yn oed wrth gyfeillion a pherthnasau. Yn wir, nid yn rhwydd yr agorai lwybrau i neb yn yr hwyl honno. Brydiau eraill, trafodai broblemau ei waith yn rhydd a bywiog, ond, efallai, yn ddadleugar.

Yr oedd yn llawen ei ysbryd, ac yn dra hoff o edrych ar yr ochr ddoniol i ddigwyddiadau a dynion. Byrlymai ei hiwmor yn gyflym. Adnabu ei ffydd ddaioni mewn bywyd.

Parchai ei rieni'n ddiderfyn. Yn arteithiau ei gystudd mynnai guddio ei boenau rhag eu blino.

Mynwesodd ddaliadau pendant mewn gwleidyddiaeth fel noddwr i'r anffodus. Dadleuai'n awchus dros hawliai'r werin. Ar un adeg arfaethai ymgynnig fel ymgeisydd am sedd Prifysgol Cymru yn Senedd Prydain.

Cymro glân, gloyw oedd Williams drwyddo'n gyfan. Datguddiai nodweddion ei genedl yn rhwydd ymhob ymddugiad. Ymfalchïai â chariad didrai yn ei hanes a'i chenhadaeth yn y byd. Cymraeg oedd iaith ei galon. Ffrydiai hi'n rhugl dros ei wefus, bob amser.

Wrth adolygu taith ei fywyd cyfyd syndod at ei ddyfalwch yn cadw pob egni'n gymen at ei wasanaeth. Mewn oes fer gweithiodd yn wyrthiol i sicrhau ei binacl. Gwadodd i ddiogi bob hawl i'w drethu.

Gedy ar ei ôl yn etifeddiaeth bymtheg ar hugain o draethodau. Ymarferai ef y gofal manylaf wrth eu cyfansoddi i'w gosod allan yn ddiamwys hollol.

Carai Williams Natur ag angerdd ei enaid. Ymhyfrydai wrth weled a chlywed ei swynion. Ar un o'i ddyddiau olaf, mynegodd ddymuniad am fraint i gludo gydag ef, hwnt i'r llen, atgofion am sŵn y gwynt mewn coed yn ein byd ni. A pha syndod sydd ?

Y Safle yng Nghymru

Gan Basil Hopkin

(Codwyd yr erthygl ddiddorol yma o rifyn Mehefin o *The Young Unitarian*).

Y mae canlynwyr y bêl droed yng Nghymru yn hapus unwaith eto am fod Caerdydd wedi dringo yn ôl i'r rheng flaenaf. Yr oedd amser er pan oedd tîm o'r rheng flaenaf ar y maes gan yr Undodiaid : heddiw y mae yn y bumed radd a heb obaith am ddyrchafiad. Gwn mai gosodiad moel ydyw hwn ac fe dyrr fy nghalon wrth orfod ei ddweud.

Y bumed radd ! Ond beth am y traddodiadau Undodaidd Cymreig y mae eich cynulleidfaoedd mor hoff o ganu amdanynt ? Aroswch funud ! Gwn fod sôn aml am y traddodiad Undodaidd Cymreig a oedd yn bod gant a dwy o flynyddoedd yn ôl. Y gwir yw nad yw'n bod bellach. Cafodd ei gladdu'n ddirgelaidd. O'r holl eglwysi yng Nghymru heddiw nid oes mwy na thair neu bedair ar y mwyaf yn aros yn Undodaidd, ac y mae'n amheus a ellir galw tri o bob deg o'u haelodau yn Undodiaid mewn unrhyw ystyr. Ond eich gweinidogion ! Oes posib nad ydynt hwy yn Undodiaid ? Na ! Ni ellir galw'r mwyafrif ohonynt yn Undodiaid. Pe baent yn onest byddent yn ymuno ag eglwys Drindodol. Gwŷr y tad, mab a'r ysbryd glân ydynt ac fe anghofiasant ystyr Undodiaeth.

Ond eto, beth am eich cynulleidfaoedd ! Pam y maent yn caniatau hyn ? Pan glywant bregeth Undodaidd o'r pulpud fe gyhuddant y pregethwr o fod yn gomiwnydd, yn anghrediniwr a gelyn crefydd. Dywedant wrth ein myfyrwyr Undodaidd : "Gobeithiwn y byddwch yn pregethu'r efengyl ac nid Undodiaeth pan eich gwahoddir i'n pulpudau." Mewn geiriau eraill, Duw'r digofaint, iachawdwriaeth drwy waed yr oen, popeth ond dysgeidiaeth ymarferol y Bregeth ar y Mynydd.

Gallai Urdd y Bobl Ifainc Undodaidd ddod a bywyd newydd i'r mudiad, ond ni fyddai'n hawdd. Nid oes ddiddordeb yn yr Urdd gan y rhan fwyaf, ond fe ddaliwn i gicio mewn un neu ddwy o'r eglwysi. Yr ydym ni aelodau'r Urdd yn sylweddoli y bydd yr hen eglwys Undodaidd a drosglwyddwyd i Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn ddiweddar yn gofeb i'r holl fudiad Undodaidd yng Nghymru cyn hir oni wneir rhywbeth am hynny. Gwyddom fod rhaid dysgu Undodiaeth yn ein Ysgolion Sul, ei gyhoeddi o'r pulpud a'i wneud yn ffordd o fyw. Galwad ieuenctid meddylgar yw : "I fyny a'r Adran Addysg Grefyddol i'r Ifanc ! I fyny Cheetham ! Ond i ba bwrpas. Mae'r Patriarch yn dweud wrth-

ym os mai dim ond dysgu darllen y Beibl a wnaeth ef yn bedair oed yn yr Ysgol Sul, y mae'r hyn a oedd yn dda iddo ef a'i dad a'i dadcu yn siŵr o fod yn dda ddigon i blant pobl eraill. Wrth gwrs, nid oes ganddo blant ei hunan, ac os oes ganddo blant y maent wedi ymadael â'r mudiad Undodaidd.

Dyma stori wir i ddangos yr argraff y mae'r mudiad Undodaidd Cymreig yn ei gael ar feddwl plentyn. Un prynhawn Sul yr oedd gweinidog Undodaidd yn cerdded adref o'r Ysgol Sul gyda'i blentyn. Yr oedd syched ar y plentyn, a gofynnodd i'w dad am roi rhywbeth i'w dorri iddo. "Rhaid i ti aros tan awn ni gartref," meddai'r tad. "Ond yr ydych chwi yn weinidog a dylasech ofyn i r Iesu am roi dŵr i mi. Fe'm dysgwyd yn yr Ysgol Sul ei fod ef yn ddewin diguro, mai ef a wnaeth y byd, iddo droi dŵr yn win ac y gallai wneud pob math o driciau rhyfeddol."

Chwilod du sy'n gweiddi am bopeth ond Undodiaeth ! Patriarchiaid hynafol sy'n gweddïo am faddeuant pechodau'r byd drwy aberth ail berson y drindod ! Dyna Undodiaeth Gymreig yn ei holl ogoniant.

Dos at dy waith Urdd y Bobl Ifainc Undodaidd.

"IEUENCTID YN YR EGLWYS UNDODAIDD."

Dyma yw teitl y llyfryn olaf a gyhoeddwyd gan y Lindsey Press, 14, Gordon Square, Llundain, W.C. 1. ; pris 2/-, 30 tud. Y mae'r awdur, J. Raymond Hodkinson, B.Sc., yn adnabyddus i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd fel gwr ifanc o Sais a ddysgodd Gymraeg ac a gyfranodd i'n tudalennau cyn hyn. Yn y llyfr hwn gosodir ger ein bron raglen gytbwys o weithgarwch i ieuenctid ein eglwysi yn cynnwys, Addoliad, Ymofyniad, Gwasanaeth, ag Adloniant. Gyda thrylwyredd gwyddonol a dwyster crefyddol y mae'r awdur yn dangos i ni gyfrinachau trefnu, arwain, datrys problemau a datblygu yr elfen ifanc yn ein plith. Dyry restr o gant o destunnau i'w trafod ac ni ddylai undyn sydd a chanddo ddiddordeb yn nyfodol ein mudiad fod heb gopi o'r llyfr hwn.

CYWYDD HIRAETH.

Gan T. Llew. Jones, Tregroes.

Pa le mae chwerthin y plant
I 'nerbyn ym Mlaenhirbant?
A theg wên dwy eneth gynt?
Huno mae un ohonynt.

Hir ofid a thro rhyfedd
Rhoi un fach wirion i fedd,
Rhoddi'r llonder mewn gweryd,
Angel o ferch mewn congl fud.

Plentyn llawen oedd Jennie,
Pawb a'i gwelai, hoffai hi,
Yn yr ysgol pen sgolor,
Chwareuai, canai'n y côr.

Pe bai i'r bedd allweddau
Neu dderw ddôr hawdd ei ryddhau
Mynnwn ddatglymu heno
Ei dwfn grud o fewn y gro.

Hiraeth er iddi orwedd
A lŷn byth wrth lan y bedd,
A mwyn pan ddaw gwanwyn gwâr
Eilwaith i rwn a thalar,
Fydd cofio rhos ei gruddiau,
Ei llais a'i gwên cyn llesgau.

Awn ni'n hen ar rwn ein hoes,
Dyna yw tynged einioes;
Ond deil hi fyth yn ifanc,
Llon ei phryd llawen ei phranc.
Diddan fydd cof amdani
A'i hardd wên fel yr oedd hi.

Od oes arch mewn bedd di-sŵn,
I beth yr anobeithiwn?
On'd ydyw'r Gair yn d'wedyd
Nad yw bedd ond newid byd?

Priodasau.

Ar ddydd Mawrth, Awst 5, yn Eglwys Sant Ioan, Pontshan, unwyd mewn glân briodas MARGARET EVANS, Nantremenyn, a RICHARD DAVIES, Llwyndewi. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. R. Evans, B.A., Ficer a'r Parch. J. Marles Thomas, M.A.

Dydd Sadwrn, Awst 30, yn Swyddfa Aberteifi, MYRA PARRY, merch Mr. a Mrs. Parry, 9, Cletwr Terrace, Pontshan, â EVAN TOM JONES, Frondeg, Llanllwni. Gwasanaethwyd gan y Cofrestrydd. Hir a dedwydd ddyddiau fo iddynt.

Marwgofion

Ar Awst 8, ELIZABETH PETCHE, No. 2, Cletwr Terrace, Pontshan, yn 47 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Mrs. Berrys, a phan fu farw ei mam dygwyd hi i fyny gan ei Mamgu—Mrs. Bet Jones, Newgat. Ymbriododd flynyddoedd yn ôl â'r diweddar John Crabb, Efail Castell Hywel. Ail-ymbriododd wedi hynny â'r diweddar Henry Petche, yr hwn a'i blaenodd ychydig fisoedd yn ôl. Byr, ond caled fu ei chystudd. Symudwyd hi yn gyntaf i Ysbyty Aberystwyth, ac oddi yno i Dreforus lle y bu farw. Benyw dawel a hawddgar ei ffordd ydoedd hi, a mawr ei gofal dros ei chartref a'i theulu. Perthynai iddi ryw anwyldeb naturiol a wnai i bawb ei hoffi. Rhoes ei gorau i wasanaeth ei chylch. Gedy ar ôl mewn hiraeth ddwy ferch mewn oedran, a dau fachgen bychan, ynghyd â llu o berthnasau. Boed pob ymgeledd iddynt, ac i'r ddau fach boed dedwydd gartref tan ofal ei chwaer a'i phriod. Claddwyd ei gweddillion ym Mhantydefaid y dydd Mawrth dilynol, pryd y daeth tyrfa o gyfeillion ynghyd i dalu'r gymwynas olaf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Mr. Elwyn Davies, a'i Gweinidog y Parch. J. Marles Thomas, M.A. ; yn y capel gan y Gweinidog a'r Parch. M. D. Jones, B.A. (Curad), ac ar lan y bedd gan y Parch. D. Jacob Davies, B.A., Aberdâr.

Dydd Sadwrn, Awst 30, yn 85 mlwydd oed, bu farw Mrs. ESTHER DAVIES, Waungron Cottage, Llanybydder. Fe'i ganwyd yn Aberdâr, yn aelod o deulu parchus cysylltiedig â'r Hên Dŷ Cwrdd. A hithau tua saith mlwydd oed, er mwyn ei iechyd, daeth i fyw i'r wlad at Miss Evans, Maesymeillion, ac hen ardal ei thylwyth, ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes, hyd nes ymbriodi tua 35 mlynedd yn ôl â Mr. Henry Davies, Fferm Waungron, a hapus iawn fu ei bywyd priodasol hyd ei farw ychydig flynyddoedd yn ôl. Bu yn ffyddlon iawn drwy gydol y blynyddoedd i'r achos yng Ngalltyplaca gan gwrdd yn anrhydeddus â phob gofyn. Y dydd Mercher dilynol gosodwyd y rhan farwol ohoni yn ymyl gweddillion ei gŵr ym mynwent Rhydybont. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan ei gweinidog y Parch. S. E. Bowen, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. David James, Rhydybont gynt a W. H. Davies, Aberduar. Gadawodd bedair chwaer mewn hiraeth o'i cholli.

Newyddion yr Enwad

GWOBR ARBENNIG AT Y NADOLIG.—Y mae'r Golygydd am gynnig hanner gini o wobr am y Casgliad gorau o Lenyddiaeth unrhyw fynwent Undodaidd yng Nghymru. Os ceir ymateb da i'r gystadleuaeth yma fe gyhoeddir y casgliad gorau a detholion o'r casgliadau eraill. Dyma gyfle i wŷr o bob oedran a chyfle arbennig i blant ysgol a garai ddechrau ysgrifennu. Dyma rai pethau i'w cofio : (1) Ni ddisgwylir i'r un cystadleuydd gopïo pob carreg fedd mewn mynwent eithr gofalwch godi'r dywediadau diddorol ac anghyffredin. Cofiwch yn arbennig am yr hen gerrig sy'n dechrau malurio. (2) Cofiwch gofnodi enwau a dyddiadau gwŷr a gwragedd enwog. (3) Chwiliwch fur y capel tuallan a tu fewn hefyd a weithiau ceir geiriau coffa ar ffenestr. (4) Os oes rhyw stori ynglŷn â charreg neu berson y credwch y dylid ei chofnodi, dywedwch y stori yn fyr. Mawr obeithiaf na fydd un fynwent heb ei chwilotwr ac y mae croeso i un a mwy i gydweithio os mynner. Y casgliadau i fod yn llaw'r Golygydd erbyn y 14 o Ragfyr.

CYFRANIADAU Y PARCH. SEYMOUR REES.—Mawr yw llawenydd y Golygydd wrth gyhoeddi fod yr hen gyfaill yma i'r YMOFYNNYDD yn mynd i gyfrannu eto yn ystod y misoedd nesaf. Y mae Mr. Rees yn llenor medrus a hanesydd trwyadl sydd wedi ennill llawryfon yr Eisteddfod Genedlaethol lawer gwaith.

LLYFRAU'R YSGOL SUL.—Yng Nghyfarfod Blynyddol yr Ysgolion Sul ym Mrondeifi, Sadwrn, Awst 30, penderfynwyd argraffu dau lyfryn ar gyfer Arholiadau Ysgrythurol ein Ysgolion Sul. Gofynnir i'r Parch. T. O Williams, M.A. ysgrifennu ar Undodiaeth i'r plant hynaf a'r bobl ifainc, ynghyd â "Daliadau'r Undodiaid". Gofynwyd i'r Parch. J. Marles Thomas, M.A. i drefnu llyfr "Gwersi a Darluniau" i'r plant bach. Mae'r gwaith eisoes mewn llaw, ac o bydd trefniadau'r argraffu yn hwylus gellir disgwyl gweld y ddau tua diwedd y flwyddyn. Penderfynwyd hefyd i fabwysiadu awgrym Mr. Thomas i gynnal gŵyl arbennig i'r Ysgolion Sul yn ystod yr haf nesaf. Mewn is-bwyllgor yng Nghwrtnewydd penderfynwyd gweithredu ar y cynllun gan roddi hanes Undodiaeth ar ffurf pasiant, drama, cyd-adrodd a chanu a phob ysgol Sul i gymryd rhan. Awgrymwyd cynnal yr ŵyl hon ar Sul ym mis Gorffennaf yn neuadd Pantydefaid. Ceir manylion pellach yn fuan.—(S. A. EVANS, Dedwyddfa, Llandysul).

RHIFYN TACHWEDD.—Gobeithiwn gyhoeddi rhifyn arbennig ar hanes Pantydefaid ar gyfer y mis hwn. Fe ddylai aelodau o'r cylch roddi archeb ar unwaith onid ydynt yn dderbynwyr eisoes.

LLUNDAIN.—Y mae llawer o ddŵr wedi llifo dan y bont ers pan ymddangosodd y nodyn diwethaf yn YR YMOFYNNYDD am yr eglwys fach yn Llundain. Y rheswm yw fod yr un a ysgrifenna y nodiadau, gan amlaf, wedi bod trwy orfodiaeth yn rhy bell o Lundain i fynychu fawr o'r gwasanaethau

ers tro. Mae wedi cael ei hun naill yn addoli gyda'r Trindodiaid mewn Cymraeg neu mewn Saesneg yng ngogledd Cymru, neu gyda'r Undodiaid eto mewn Cymraeg neu Saesneg yn Ne Cymru. Yn wir, y mae wedi mynychu llawer mwy o gapeli Saesneg yng Nghymru nag a wnaeth ers blynyddoedd yn Llundain ! Diolchwn i bob un sydd wedi cymryd gwasanaethau'r eglwys yn Highgate yn y misoedd diwethaf yma ; maddeuer imi am na fedraf eu henwi y tro hwn. Llongyfarchwn amryw sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn arholiadau : yn eu plith Miss Gill Williams wedi graddio gydag anrhydedd yn y Brifysgol yn Bryste, a Miss Sulwen Jones (ein organyddes) wedi ennill y Froebal National Foundation Certificate. Dymunwn bob llwyddiant i'r rhai sydd yn awr a'u wynebau ar y Brifysgol. Yr ydym wedi colli aelod arall a fu'n ffyddlon iawn gyda ni amser y rhyfel ac o hynny ymlaen, sef Miss Morfydd Williams. Os na fyddai Morfydd yn y capel gwyddem ei bod ar *duty* yn Guy's neu yn yr Hen Wlad ar ei gwyliau. Yn awr y mae wedi dychwelyd i fyw i Gymru ; bydd colled Llundain yn sicr o fod yn ennill Caerfyrddin. Pob hwyl iddi yn ei swydd newydd. Pa le mae'r rhai i lanw'r bylchau mynych yma sy'n digwydd yn aelodaeth Highgate ? Llongyfarchwn Lywydd newydd y Gymdeithas Gymraeg ac ymfalchïwn o ddeall fod y cyn-lywydd (Mr. D. T. Williams) yn parhau i wella ; treuliodd ein cadeirydd oriau hapus iawn yn ei gwmni ychydig amser yn ôl, ar aelwyd serchog "Brondeifi," Aberdâr. Llongyfarchiadau i'r Llwyn a Bwlchyfadfa ar gael gweinidog newydd. Dychwela'r Parch. Aubrey Martin, B.A. yn ôl dros y ffin gyda dymuniadau goreu'n eglwys ni. Ymfalchïwn hefyd gyda'r Hên Dŷ Cwrdd yn Aberdâr o gael y cyfaill sydd wedi bod yn wir gymydog iddynt am beth amser, yn weinidog ; dymunwn fawr hapusrwydd i'r Parch. Jacob Davies, B.A. ag i'r eglwys. Bendith Duw fyddo ar waith y ddau ŵr ieuanc yma sydd eisioes yn adnabyddus i ni bawb. Llongyfarchiadau pellach i Olygydd Yr Ymofynnydd ar gael ei ethol yn un o arweinwyr yr Eisteddfod Genedlaethol. O gofio dyled yr Eisteddfod i Undodwr gynt (Iolo), ymhyfrydwn o weld un o'r enwad eto ar y llwyfan. Yr ydym yn obeithiol iawn erbyn hyn mae'r trydydd lle i gael Cyrddau Sefydlu fydd Highgate. Gweddïwn mai felly y bydd.

CYFARFODYDD ARBENNIG YN ABERDÂR.—Cynhaliwyd tri chwrdd arbennig yn yr Hên Dŷ Cwrdd yn ystod wythnos olaf Medi. Nos Fercher y 24ain daeth tyrfa dda ynghyd i weld dadorchuddio maen coffa hardd i'r diweddar Barch. E. R. Dennis. Gosodwyd y garreg ar yr ochr chwith i'r pulpud ac arni yn ysgrifenedig y mae'r geiriau "Er Cof Am / y Diweddar Barch. Evan Rhys Davies L.T.S.C. / 1882-1949 / Gweinidog y Tŷ Cwrdd hwn / 1916-1949 / Dramawr, Cerddor a Bugail Da. Ar ôl y gwasanaeth defosiynol gan y gweinidog presennol dadorchuddiwyd y garreg gan Mrs. M. A. Davies. Fe wnaeth hyn mewn ffordd urddasol a gyda geiriau syml. Arosodd y gynulleidfa'n dawel, symudodd y gweinidog newydd y naill ochr o'r pulpud gan ei adael yn wag am ennyd. Ar y bwrdd yr oedd blodau gwyn hardd, rhodd Raymond, unig fab yr hen weinidog. Er fod Raymond ar dir Affrica yn awr, y nos honno, yr oedd ei feddwl yn

rhywle o gwmpas y blodau gwyn ar y bwrdd. Noson atgofus ydoedd a phawb yn dwyn ei deyrnged o barch i'r gŵr mwyn tyner ac amyneddgar a roes wasanaeth mor drylwyr a gweinidogaeth mor ddyfal iddynt. Dyma rai o'r geiriau sydd yn glynu, "ysbryd grasol," "boneddigeiddrwydd," "y naws a oedd o'i gwmpas a'i ffydd mewn anfarwoldeb" a'r "dylanwad a erys." Ie, blodau gwyn bob un. Siaradwyd gan y canlynol, y Parch. D. Jacob Davies, Mrs. J. R. Jones, Mrs. M. J. Davies, Mrs. D. T. Williams, Miss Edith Howells ; y Meistri John Thomas, Josiah Davies, M. R. Morgan (Highland Place a Chymdeithas y De Ddwyrain), Edgar Williams, Alan Morgan (Y Theatr Fach—ei hen gwmni drama), T. Edwards (aelod o ddosbarth Cerdd Mr. Dennis), Isaac Hopkin (Trebanos), W. W. Price, Lewis Edwards (Cefn) a'r Prifathro J. D. Jones. Canwyd emyn o waith Mr. Dennis i orffen cyfarfod dwys ei ysbryd. Erys y "garreg wen a'r enw newydd" i dystiolaethu tra phery am wasanaeth mawr y bugail annwyl. Nos trannoeth cychwynodd bugail arall ar ei waith ac fe gafwyd cwrdd syml i groesawu gweinidogaeth y Parch. D. Jacob Davies. Agorwyd y cwrdd trwy ddefosiwn gan y Parch. R. Ifor Parry (A.), Siloa ac fe gadeiriodd Mr. Edgar Williams yn y cwrdd croeso a ddilynodd. Rhoddwyd croeso cynnes iawn gan gynulleidfa niferus a siaradwyr caredig i'r gweinidog newydd ar ddechrau'r daith. Y siaradwyr oedd, Mrs. Lilian Davies, y Mri John Thomas, Tom Morse, D. B. Jones (Cefn), Miss Mary Williams (Trebanos), y Parch. Eirian Davies (M.), Hirwaun a'r Prifathro J. D. Jones. I ddilyn cafwyd pregeth rymus iawn ar faes y weinidogaeth gan y Parch. J. Marles Thomas. Daeth nifer helaeth o gyfeillion o Drebanos a Chefn i'r ddau gyfarfod yma a diolchwn iddynt am eu cwmni. Y dydd Sul canlynol cynhaliwyd y Cyfarfodydd Diolchgarwch arferol a'r gweinidog yn gwasanaethu yn yr hwyr a'r bore. Daeth Mr. S. R. Butler, y lleygwr bonheddig o Gaerdydd i gynnal gwasanaeth Saesneg yn y prynhawn. Cafwyd oedfeuon da ar hyd y dydd a phleser mawr oedd croesawu nifer o ymwelwyr i'n plith.

CRONFA'R YMOFYNNYDD.—Mr. H. Morgan, Trebanos, £1. Os ceir cyfraniadau yn ystod Tachwedd a Rhagfyr gellir dweud na fu mis heb rodd yn ystod 1952. Boed felly !

MARWOLAETH "CARRARA."—Bu farw'r Parchedig J. Apwilym Carrara Davies yn ei gartref yn Belper ar yr 11eg o Fedi yn 70 oed. Yr oedd yn adnabyddus iawn yn y cylchoedd Cymreig, wedi ei godi yn Llanbedr ac wedi dechrau ei weinidogaeth yng Nghymru. Gofalodd am yr Hên Dŷ Cwrdd, Aberdâr am chwe mis yn 1910, a bu yng Nghefn Coed o 1910-1918. O Gefn Coed aeth i Belper ac yno bu yn fawr ei barch hyd ei farw. Fe'i tarawyd yn wael tuag adeg angladd y Parch. E. O. Jenkins y llynedd a methodd orffen erthygl i'r Golygydd ar ei gyfaill mynwesol y pryd hwnnw. Treuliodd E.O.J. ac yntau lawer awr ddifyr yng nghwmni ei gilydd a'r naill yn fawr ei barch i'r llall. Credaf mai'r tro olaf iddo siarad yn un o'n capeli oedd yn y Bwlch tua dwy flynedd yn ôl. Yr oedd ei wên chwareus a'i ddull tawel yn ennill cyfeillion iddo ym mhob man. Mawr yr hiraeth o'i golli.

Gohebiaethau

Codwyd o'r *GENHINEN*—Gorphennaf, 1914. Rhif 3. Cyf. XXXII.

BEDDARGRAFFIADAU ENWOGION.

Mr. Gol.,—Dichon y bydd yn wiw genych ddodi, yn eich cylchgrawn cenedlaethol, y ddau feddargraff canlynol,—y naill i'r Parch. Owen Rees, gweinidog Anghydffurfiol cyntaf Plwyf Aberdâr ; a'r llall i Sion Llewelyn, yr hen fardd o Goed y Cymer, yr hwn oedd enwog yn ei ddydd. Aeth ei weithiau drwy fwy nag un argraffiad.

Underneath lieth the body of the Rev. Owen Rees, of this Parish who died the 14 of March 1768 aged 51 years.

O ddyn, ar derfyn bron darfod,—ystyr
W ir destyn myfyrdod
E lw i'r byw ni welir bod
N a sylfaen hir breswylfod.

R hybyddiais ddyfais wir ddwyfol—orchwyl
E rchais ar fy mhobol
E r i neb i drysori 'nol
S ail addas a sylweddol.

Sylwer fod yr englynion yn acrostic. Eu hawdur, y Parch. Edward Efan, 1716—1798.

Fe roddwyd Sion Llewelyn
A'i wraig mewn daiar crwm
I orwedd dan y gareg hon
A saith o wyrion rhyngddyn.
Hi a gladdwyd Mehefin 20, 1763, oed 78.
Efe a gladdwyd Ionawr 1, 1776, oed 85.

S.N.S.

DAFIS CASTELL HYWEL, 1744—1827.

Mr. Gol.,—Y mae llawer iawn o dywyllwch mewn cysylltiad â'r dull o gyfleu enwau personol yn y ddeunawfed ganrif. Er enghraifft, cawn fod y bonwr uchod, y Parch. Dafydd Dafis, yn fab i Timothy Jacob ; ac yn galw ei hunan yn Deio ab Ieuan Rhydderch, a'i fab hynaf, Y Parch. David Davis, Castell Nedd, yn galw ei hunan yn D. ab Deio, &c. A fedr rhywun awgrymu'r paham ? Fel y gwyddys, Dafis oedd cyfieithydd "Gray's Elegy".

T.C.U.

GOHEBYDD O GAERDYDD.

Y SAER.

Gan Rhydwen Williams.

Draw yng Ngroeg yr oedd llên a chelfyddyd
  Wedi meddwi'r genedl i gyd,
A gorweddai'r doeth mewn moeth ac esmwythtra
  Yn berchenogion eu byd.

Ac yng ngwlad ein Testament yr un oedd y stori—
  Anfri oedd rhan yr isel radd ;
Wrth drefn ei dras 'roedd dyn ar ddyn yn rhagori ;
  Trengai'r truan ger meini nadd.

Ac mewn hen ysgrythur yr oedd holi, ' Ba ddoethineb
  A ymddiriedwyd i yrrwr yr ychain mud ?
Ac oni ordeiniwyd gwyddor a gwareiddiad
  Ar gyfer barwniad y byd ? '

Nes dyfod o fyd dirgelaf y Duwdod
  Y ddynol, ddwyfol, frenhinol Aer,
A'r hil yn holi o flaen ei ryfeddod,
  "Onid Hwn yw y Saer" ?

Pan aeth eneiniog y Nef yn werinwr o Nasareth,
  Aeth y dosbarth is yn ddosbarth uwch,
A datguddiwyd rhyw briodoleddau breiniol
  O dan haenau o'n llaid a'n lluwch.

Pan gydiodd y Saer yn ei fwyell a'i forthwyl
  Urddasolwyd dwylo holl labrwyr y byd,
Aeth glowyr Cwm Rhondda a chwarelwyr Ffestiniog
  Yn bendefigion i gyd.

"Cyrddau dathlu Can Mlwyddiant a Hanner yr Achos" ym Mhantydefaid a "Chyrddau Hydref y Gymdeithas"

Hydref 21ain a'r 22ain, a Sul, Hydref 26ain

NOS FAWRTH AM 6.30 : *GWASANAETH RHAGARWEINIOL.*

Llywydd—Mr. Bryn Jones, B.Sc., Tregroes.
"*Trem yn ôl*" : Mr. David Davies, Sychdy.
"*Trem ymlaen*" : Y Parch. J. Marles Thomas, M.A.

(Cymerir rhan yn ogystal gan Aelodau eraill).

BORE MERCHER am 11 o'r gloch : *PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.*

PRYNHAWN am 2 o'r gloch :

Llywydd—Y Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.
Siaradwr : Y Parch. T. Oswald Williams, M.A.
"*Hanes yr achos yn y lle.*"

HWYR am 6 o'r gloch :
Pregethir gan y Parchn.
D. Jacob Davies, B.A., Aberdâr (un o blant yr eglwys).
Aubrey J. Martin, B.A., Bwlchyfadfa a Llwynrhydowen.

SUL, HYDREF 26ain—GWASANAETH ARBENNIG GAN AELODAU'R YSGOL SUL.

"*Coroni'r Dyfodol.*"

CROESO I BAWB.

J. D. LEWIS A'I FEIBION CYF., GWASG GOMER, LLANDYSUL.